# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH DDYDD MAWRTH, 2 GORFFENNAF AM 5:30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry – Cadeirydd
Y Cynghorydd C. Andrews – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, W. David, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, D. Havard, B. Miles, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Simmonds ac R. Whiting.

P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad).

Ynghyd â:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), P.Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), A. West (Rheolwr Derbyniadau, Gwaharddiadau ac Ysgolion yr 21ain Ganrif), M. Jacques (Swyddog Craffu) ac C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: M. Barry (Rhiant-lywodraethwr), Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili), Mr R. Morgan (Rhiant-lywodraethwr), Mrs P.J. Ireland a Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan y Cynghorwyr M. James and Mrs G. Oliver and R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. COFNODION – 2 EBRILL 2019

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ddydd Mawrth 21 Mai 2019 (rhifau cofnodion 1-8) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Wrth drafod Materion sy'n Codi, gofynnodd Aelod am eglurhad gan Swyddogion ynghylch ffigurau a Pherfformiad mewn perthynas ag adroddiad a drafodwyd mewn cyfarfod blaenorol, gan fynegi pryderon am ganfyddiad y cyhoedd a niwed i enw da. Er y cafodd yr Aelod ei sicrhau na fyddai'r ffigurau'n cael effaith ar enw da'r Awdurdod, cytunwyd hefyd y byddai trafodaethau'n digwydd y tu allan i'r cyfarfod a byddai e-bost dilynol yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor a'r Aelod ar unrhyw ymholiadau a godir.

## 4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad a oedd yn amlinellu Blaenraglen Waith ddrafft y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes o fis Mai 2019 i fis Mai 2020.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi, ers cyhoeddi'r adroddiad, bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi cytuno y dylid symud yr adroddiad ar Ysgolion yr 21ain Ganrif fel eitem wybodaeth a'i ddarparu ym mis Tachwedd. Trafododd y Pwyllgor y cynnig hwn a chytunwyd i'r adroddiad gael ei symud a'i ddarparu fel eitem wybodaeth.

Yn dilyn ystyriaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad a newidiadau arfaethedig y Swyddog yn cael eu cymeradwyo.

> PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r flaenraglen waith, a atodir wrth yr adroddiad, yn amodol ar y newidiadau uchod.

## 6. ADRODDIADAU'R CABINET

Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod.

## ADRODDIADAU'R SWYDDOGION D

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 7. FFEDEREIDDIO YSGOLION - ADRODDIAD YMATEB I YMGYNGHORIAD

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Aelodau ar ganlyniad y broses ymgynghori ffurfiol ar gyfer ffedereiddio Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed ac Ysgol Gynradd y Parc; Ysgol Gynradd Fleur de Lys ac Ysgol Gynradd Pengam; Ysgol Iau Bedwas ac Ysgol Gynradd Rhydri, Ysgol Gynradd Cwmfelin-fach ac Ysgol Gynradd Ynys-ddu; a gofyn am farn yr Aelodau ar yr ymatebion cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad ynghylch symud i ffederasiwn ffurfiol ar gyfer y pedwar grŵp o ysgolion o fis Medi 2019.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod Cyrff Llywodraethol yr ysgolion eisoes wedi bod yn gweithio ar y cyd am nifer o flynyddoedd a gofynnwyd i'r Awdurdod eu cefnogi yn y broses o symud i ffederasiwn ffurfiol.

Cytunodd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2018, i’r cais i symud ymlaen i ymgynghori ffurfiol mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethol pob ysgol a rhedodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar gyfer pob ysgol rhwng 22 Hydref 2018 a 10 Rhagfyr 2018. Ar 6

Tachwedd 2018, ymgynghorwyd ag Aelodau Craffu Addysg ar y cynnig i ffedereiddio’r 4 grŵp o ysgolion yn ffurfiol a gwnaethant gefnogi hynny’n unfrydol.

Gofynwyd i’r pwyllgor nodi crynodeb o'r ymatebion, y manylir arnynt ym mhrif gorff yr adroddiad, wedi'i drafod yn fanwl gyda phob Corff Llywodraethu ac maent i gyd wedi cadarnhau'n unfrydol eu bod yn cytuno i fwrw ymlaen â'r cynnig i ffedereiddio.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu nodi, pe byddent hwy a'r Cabinet yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r cynnig ar 10 Gorffennaf 2019, bydd yr offeryn Llywodraethu newydd ar gyfer pob Corff Llywodraethu ffederal yn cael ei ddrafftio a bydd y Cyrff Llywodraethu ar wahân yn cael eu diddymu a bydd y Cyrff Llywodraethu newydd yn cael eu sefydlu'n barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn ysgol newydd.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Swyddogion a’r Aelod Cabinet am yr adroddiad ac aeth y drafodaeth ymlaen.

Ystyriodd yr aelodau yr adborth mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori a nodwyd mai dim ond nifer fach o ymatebion a gafwyd. Esboniodd swyddogion fod y Cyrff Llywodraethu yn awyddus iawn i ffurfioli'r trefniadau cyfredol yr oeddent wedi bod yn cydweithio arnynt yn llwyddiannus ers nifer o flynyddoedd. Tybir mai dyma un o'r rhesymau dros y gyfradd ymateb is gan rieni ac ati. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi bod ymatebion Estyn wedi'u hysgrifennu yn eu fformat arferol mewn perthynas ag ymgynghoriad o'r natur hon.
Cafwyd trafodaethau ynghylch Ysgol Gynradd Gilfach Fargod ac Ysgol Gynradd y Parc, a cheisiodd yr Aelodau sicrwydd pellach gan Swyddogion ynghylch y cydweithredu, gyda phryderon penodol am ymateb Estyn, fel y manylir ar dudalen 44 yn yr adroddiad. Esboniodd swyddogion fod proses ymgynghori lawn wedi’i chynnal rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2018, ond roedd ymateb Estyn i’r ffedereiddio hwn ychydig yn wahanol o gymharu â’r tri grŵp arall o ysgolion. Sicrhawyd yr aelodau bod y cydweithredu yn gweithio'n dda; fodd bynnag, dyma'r cydweithredu mwyaf newydd, nad yw wedi'i ymgorffori cyhyd. Fodd bynnag, gwnaed gwelliannau cyflym ac mae'r ysgolion yn mynd o nerth i nerth.

Roedd yr aelodau'n awyddus i gefnogi'r argymhelliad a ffurfioli ffedereiddio'r ysgolion, gyda phwyslais arbennig ar effaith gadarnhaol gweithio ar y cyd yn Ysgolion Cynradd Bedwas, Rhydri, y Parc a Gilfach Fargod, sydd yn y pen draw wedi codi safonau yn yr ysgolion a oedd yn ei chael hi'n anodd ac nad oedd yn perfformio'n dda o’r blaen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:

i) Ystyried a rhoi sylwadau ar ymatebion yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynigion y Ffedereiddio;
ii) Cefnogi argymhelliad i'r Cabinet i symud ymlaen i ffedereiddio'r grwpiau o ysgolion a nodwyd yn 1.1 uchod yn ffurfiol.

## 8. TREFNIADAU CYLLID FFORMIWLA AR GYFER YSGOL GYFUN CWM RHYMNI (DAU SAFLE WEDI'U RHANNU)

Amlinellodd yr adroddiad y trefniadau cyllido fformiwla ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â threfniadau cyfredol dau safle wedi eu rhannu yr Ysgol (pellter o 7 milltir rhwng y 2 safle).

Nodwyd bod pob grŵp oedran o flwyddyn 7 hyd at flwyddyn 11 wedi cael eu dysgu ar y ddau safle ers mis Medi 2017. Blwyddyn academaidd 2017-18 oedd y flwyddyn academaidd gyntaf i'r trefniant hwn fod ar waith. Mae 2 ddalgylch gwahanol gydag ysgolion bwydo cysylltiedig ar gyfer safleoedd Gelli Haf (Coed Duon) a'r Gwyndy (Caerffili).

Mae'r adroddiad yn adolygu'r sefyllfa cyllido gyfredol ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac yn ystyried hyn mewn perthynas â'r sefyllfa o ran ysgolion sy'n cydweithredu ar hyn o bryd neu'r rhai sy'n cynnig ffedereiddio mwy ffurfiol gyda Phennaeth a rennir yn y Fwrdeistref.

Nododd yr aelodau mai Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw'r unig ysgol uwchradd Gymraeg yn y Fwrdeistref. Ym mis Mai 2018, cytunodd Bwrdd Strategaeth yr Ysgol y dylid ymgynghori ynghylch trefniant cyllido cyfredol y ddau safle wedi eu rhannu ar gyfer yr ysgol.

Mae'r adroddiad yn dilyn adroddiad i'r Fforwm Cyllideb Ysgol (a gynhaliwyd ar 27 Medi 2018) a'i gylchredeg wedi hynny i'r holl Benaethiaid (fel yr atodwyd i'r adroddiad). Cylchrhedwyd yr adroddiad ar 30 Tachwedd 2018 gyda chais am unrhyw adborth erbyn 11 Ionawr 2019.

Gofynnodd yr adroddiad am farn yr Aelodau mewn perthynas â threfniadau cyllido'r ddau safle wedi eu rhannu ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, yng nghyd-destun maint y ddau safle.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Mynegodd yr aelodau eu dryswch gyda fformat yr adroddiad, gan amlinellu bod yr argymhellion yn aneglur. Nodwyd bod y wybodaeth gyfatebol wedi'i hamlinellu yn 10.1 yr adroddiad, o fewn y Goblygiadau Ariannol, ond gofynnodd yr Aelodau i argymhellion pellach yr adroddiad fod yn fwy eglur.

Gofynnodd Aelod am wybodaeth bellach am y 2 ysgol ac a fyddai'n cael ei ffurfioli y byddai'r safleoedd yn cael eu nodi fel 2 ysgol ar wahân, gyda'r posibilrwydd y byddai opsiwn 6$^{ed}$ dosbarth yn cael ei gynnwys yn y dyfodol. Esboniodd swyddogion y bydd deialog bellach yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r adroddiad yn ystyried y sefyllfa ariannu gyfredol a'r pwysau ar y safleoedd oherwydd capasiti a phellter rhwng y safleoedd. Yn ogystal, nodwyd, oherwydd arbedion maint, ei bod yn fwy cost effeithiol i rannu lle bo hynny'n bosibl.

Cafwyd trafodaethau ynghylch capasiti ar draws y safleoedd a nodwyd bod capasiti o 855 yn y Gwindy a 900 yng Nghwm Rhymni, sy'n profi pwysau cynyddol i fodloni gofynion ysgolion cynradd bwydo. Darperir gwybodaeth bellach am niferoedd gwirioneddol myfyrwyr ar y rôl i'r Aelodau drwy e-bost.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

i) Diweddaru'r trefniadau cyllid wedi'i rannu ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar ôl ystyried y cyhoeddiadau a gyflwynwyd yng nghorff yr adroddiad;

ii) Mae'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r diweddariad i drefniadau cyllido'r ddau safle wedi eu rhannu, sy'n cyfateb i oddeutu £114 mil, wedi'i ariannu o fewn y gyllideb ysgolion unigol yn 2020/21, a fyddai fodd bynnag yn cael effaith fach ar draws yr holl ysgolion oherwydd “pwysau” i gyllido, neu ei gyllido fel eitem twf, yn amodol ar gynigion a blaenoriaethau cyllideb yr Awdurdod yn 2020/21;

iii) Mae'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi cyllido ôl-weithredol ar gyfer y blynyddoedd ariannol cyfredol a blaenorol (tua £100 mil), yn amodol ar gadarnhad yn yr adroddiad pellach i'r Cabinet bod y diffyg yn ganlyniad uniongyrchol o bwysau ariannol sy'n deillio o drefniant y ddau safle wedi eu rhannu ac nid am resymau eraill, a bod balansau wrth gefn Rheoli Ysgolion yn Lleol yn cael eu defnyddio i ariannu'r gost unwaith ac am byth.

iv) Cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ar gyfer penderfyniad ar y fethodoleg cyllido a ffynonellau cyllid.

## 9. RHAGLEN BAND B YSGOLION AC ADDYSG YR 21AIN GANRIF

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i Aelodau ar Raglen Band B Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif, sy'n rhedeg rhwng 2019 a 2026 ac y cytunwyd arno gan y Cabinet ar 25 Ebrill 2018.

Amlinellodd yr adroddiad fod y Cyngor wedi cytuno ar 21 Chwefror 2019 i ddyrannu £5.475 miliwn i gyllid cyfatebol rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif. Y cynlluniau blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer Cam 1 y rhaglen yw ehangu'r ddarpariaeth yn Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn.

Mae'r cyfraddau ymyrraeth ar gyfer y rhaglen wedi newid, fel yr amlinellwyd yng nghorff yr adroddiad. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yng nghyfraniad y Cyngor i'r rhaglen yn gyffredinol o £39.15 i £26.8 miliwn.

Mae manyleb gychwynnol yr ehangu a gynigiwyd ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod wedi arwain at argymhelliad i gynyddu'r dyraniad ar gyfer y prosiect hwn o £5 miliwn i £10 miliwn. Byddai'r arian hwn yn cael ei drosglwyddo o'r rhaglen adnewyddu ac mae'n unol â disgwyliad LlC i brosiectau fod yn arloesol ac i gael eu hystyried yn "gyfle unwaith mewn oes". Er mwyn cyflawni hyn a diogelu'r ysgol yn gadarn at y dyfodol, mae'r cynnydd mewn buddsoddiad i £10 miliwn yn hanfodol.

Mae'r ddau brosiect, a amlinellir yn 2.3 yr adroddiad, yn y cam datblygu cynnar a bydd Swyddogion yn sicrhau bod Aelodau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn perthynas â phob agwedd ar y cynnig e.e. ariannol, yr achos busnes, y broses ymgynghori ac ati.

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd cyfraniad cyllid cyfatebol rhagamcanol cyfredol y Cyngor i gyflawni'r ddau gynllun yn £5.1 miliwn. Os cytunir ar y cynnydd ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, byddai hyn yn lleihau cyfraniad cyffredinol y Cyngor o £26.8 miliwn i £26.3 miliwn.

Mae Bwrdd wedi'i sefydlu i gynnal adolygiad o ddarpariaeth Chweched Dosbarth/Un Rhyw/Lleoedd dros ben.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Swyddogion am yr adroddiad ac aeth y drafodaeth ymlaen.

Nodwyd nad yw Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg yn cyfeirio at ddarparu diweddariad o Fwrdd Adolygu Chweched Dosbarth/Un Rhyw/Lleoedd dros ben. Cytunodd swyddogion y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y flaenraglen waith maes o law, gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Pwyllgor.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y Cynllun Busnes a'r broses a nodwyd y bydd angen gwneud gwaith dylunio helaeth cyn cynhyrchu achos busnes, a wneir gan Ymgynghoriaeth Adeiladu ac adrannau eraill yn y Cyngor, ac arbenigwyr allanol lle bo angen. Yna bydd yr Achos Busnes yn destun ystyriaeth a chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Rhagwelir y gellir darparu adroddiad diweddaru drwy broses y Pwyllgor tua diwedd y flwyddyn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, y dylid nodi'r adroddiad a bod y Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r argymhelliad i gynyddu'r cyfraniad

ar gyfer Ysgol a Chanolfan Cae'r Drindod o £5 miliwn i £10 miliwn cyn i'r Cabinet ei ystyried.

## 10. CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL - ADOLYGIAD CYLLID

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Aelodau ar raglen Band B Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif, sy'n rhedeg rhwng 2019 a 2026 ac a oedd yn cynnwys canlyniad yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Phrifathrawon ar y cynigion ynghyd â goblygiadau a llinell amser ar gyfer gweithredu. Wedi hynny, bydd yr adroddiad yn mynd i'r Cabinet i gael penderfyniad.

Nodwyd bod anghenion mwyafrif y disgyblion yn cael eu diwallu mewn addysg brif ffrwd; fodd bynnag, mae yna ystod o ddarpariaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth gwahanol ar draws yr Awdurdod Lleol (ALl), fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Mae'r lefelau staffio presennol mewn Canolfannau Adnoddau Arbennig (CAA) yn golygu bod rhaid i'r mwyafrif o'r dosbarthiadau gael lefel o adnoddau ychwanegol er mwyn diwallu anghenion cymhleth cynyddol lleoedd plant yn yr ALl. Mae anghenion y plant mewn CAA wedi dod yn fwy cymhleth dros amser ac felly cynhaliwyd dadansoddiad cadarn o'r anghenion hynny er mwyn nodi model a fydd yn sicrhau tegwch ar draws y darpariaethau neu ar gyfer darparu dynodiadau tebyg.

Roedd argymhellion ar gyfer model o staffio ac adnoddau yn yr adroddiad ynghyd ag unrhyw oblygiadau cysylltiedig.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Swyddogion am yr adroddiad ac aeth y drafodaeth ymlaen.

Trafododd yr aelodau yr adroddiad a gofyn am eglurhad o amgylch y bwrdd am 5.15 yr adroddiad gan gyfeirio at Staffio Ychwanegol. Esboniodd swyddogion fod yr adolygiad wedi'i gynnal er mwyn canfod y gwahaniaethau mewn lefelau cymorth ar draws Ysgolion, er mwyn sicrhau eu bod yn deg ac yn addas at y diben, yn enwedig gyda'r oriau yn narpariaeth cymorth Cynorthwywyr Addysgu. Nododd yr adolygiad feysydd lle'r oedd darpariaeth cymorth ychwanegol ar waith, lle nad oedd ei hangen ac o ganlyniad, mae cyllid wedi'i newid i adlewyrchu hyn.

Trafodwyd yr adolygiad yn helaeth ac roedd yr Aelodau'n awyddus i gefnogi'r adolygiad, gan sicrhau bod darpariaeth cymorth yn y lleoedd iawn i ddisgyblion ledled y fwrdeistref.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, fod y Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r model staffio, adnoddau a llinell amser arfaethedig ar gyfer gweithredu ar gyfer CAA y Cyngor.

Terfynwyd y cyfarfod am 18:59

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

__________________________

CADEIRYDD